OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 945 (Cy.126)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *27 Mawrth 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *30 Mai 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 16(1)(a), 17(1), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddi ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**) ac yntau wedi parchu yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar ôl ymgynghori fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith fwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau ar gyfer materion sy'n ymwneud â dioglewch bwyd(**3**) ac yn unol ag adran 48(4) a (4B) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2003 a byddant yn gymwys i Gymru yn unig a deuant i rym ar 30 Mai 2003.

### Diwygio Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995

**2.** Ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli) o Reoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995(**4**)), yn y diffiniad o "Directive 96/77/EC"(**5**), yn lle'r geiriau "and Commission Directive 2001/30/EC" rhoddir y geiriau ", Commission Directive 2001/30/EC(**6**) and Commission Directive 2002/82/EC"(**7**).

(**1**) 1990 p. 16.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), fel y caiff ei ddarllen gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999.
(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1.
(**4**) O.S. 1995/3187, a ddiwygiwyd gan O.S. 1997/1413, O.S. 1999/1136, O.S. 2001/1787 (Cy.128) ac O.S. 2002/329 (Cy.42).
(**5**) OJ Rhif L339, 30.12.1996, t.1.
(**6**) OJ Rhif L146, 31.5.2001, t.1.
(**7**) OJ Rhif L292, 28.10.2002, t.1.

**Diwygiadau canlyniadol**

**3.**—(1) Hepgorir paragraff (2) o reoliad 9 (diwygiadau canlyniadol) Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2002(**8**).

(2) Yn y Rheoliadau a restrir isod, i'r graddau y maent yn ymestyn i Gymru, dylid dehongli cyfeiriadau at Reoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995 fel cyfeiriadau at y Rheoliadau hynny fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) 1997(**9**)), Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) 1999(**10**), Rheoliadau Echdynion Coffi ac Echdynion Sicori (Cymru) 2000(**11**)), Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2001(**12**), Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2002 a'r Rheoliadau hyn:

Rheoliadau Hydrocarbonau Mwynol mewn Bwyd 1966(**13**);

Rheoliadau Cynhyrchion Siwgr Penodedig 1976(**14**));

Rheoliadau Cynhyrchion Coco a Siocled 1976(**15**);

Rheoliadau Suddion Ffrwythau a Nectarau Ffrwythau 1977(**16**));

Rheoliadau Llaeth Tewychedig a Llaeth Sych 1977(**17**);

Rheoliadau Jam a Chynhyrchion Tebyg 1981(**18**);

Rheoliadau Cynhyrchion Cig a Chynhyrchion Pysgod Taenadwy 1984(**19**);

Rheoliadau Labelu Ychwanegion Bwyd 1992(**20**);

Rheoliadau Labelu Bwyd 1996(**21**)).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**22**)

*Jane Hutt*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

(**8**) O.S. 2002/329 (Cy.42).
(**9**) O.S. 1997/1413.
(**10**) O.S. 1999/1136.
(**11**) O.S. 2001/1440 (Cy.102).
(**12**) O.S. 2001/60.
(**13**) O.S. 1966/1073; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1995/3187.
(**14**) O.S. 1976/509; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1995/3187.
(**15**) O.S. 1976/541; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1995/3187.
(**16**) O.S. 1977/927; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1995/3187.
(**17**) O.S. 1977/928; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1995/3187.
(**18**) O.S. 1981/1063; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1995/3187.
(**19**) O.S. 1984/1566; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1995/3187.
(**20**) O.S. 1992/1978; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1995/3187.
(**21**) O.S. 1996/1499; y mae diwygiadau iddynt nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**22**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru yn unig, yn diwygio Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995, fel y'u diwygiwyd eisoes ("y prif Reoliadau"), sy'n ymestyn i Brydain Fawr.

Mae'r Rheoliadau yn gweithredu Cyfarwyddeb y Comisiwn 2002/82/EC sy'n diwygio Cyfarwyddeb 96/77/EC sy'n gosod meini prawf purdeb pendodol ar ychwanegion bwyd heblaw am liwiau a melyswyr (OJ Rhif L292,28.10.2002.p.1).

Mae'r Rheoliadau yn pennu meini prawf purdeb newydd mewn perthynas â'r ychwanegion a bennwyd yn yr Atodlen i Gyfarwyddeb y Comisiwn 2002/ 82/EC (rheoliad 2) ac yn gwneud diwygiadau cysylltiedig i Reoliadau penodol mewn perthynas â chyfeiriadau yn y Rheoliadau hynny at y prif Reoliadau (rheoliad 3).

Ni pharatowyd arfarniad rheoliadol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.